



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

comisiynyddygyymraeg.cymru

Comisiynydd y Gymraeg: Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017–2020

Rhagair gan y Comisiynydd

Mae'n ddyletswydd arnaf dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i amlinellu fy amcanion ar gyfer cydraddoldeb mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Dyma'r ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol i Gomisiynydd y Gymraeg ei baratoi ers i'r swydd gael ei chreu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac i'r gwaith gychwyn ym mis Ebrill 2012.

Mae Ombwdsmyrn a Chomisiynwyr ar draws Ewrop a'r byd yn gweithio i warchod hawliau, a bydd Comisiynydd y Gymraeg yn dilyn y traddodiad hwn. Rwyf wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau y caiff ystyriaethau cydraddoldeb eu prif ffrydio i'r drefn o ddylunio polisiau a gwasanaethau'r sefydliad hwn.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gwrthwynebu'n llwyr unrhyw gamwahaniaethu ar ba bynnag sail. Wrth ddefnyddio arferion cyflogaeth teg a gwrthrychol, bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod swyddogion yn cael eu trin yn deg a chyda pharch yn y gweithle, ac yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu ac i gyflawni i'w llawn botensial.

Fel sefydliad bychan gyda nifer cyfyngedig o staff, mae fy ngallu i gyflawni prosiectau mawr i hyrwyddo cydraddoldeb hefyd yn gyfyngedig. Serch hynny, rwyf o'r farn nad yw hyn yn rhwystro ymrwymiad llawn i wella ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol wrth arfer fy swyddogaethau.

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

24 Ionawr 2017



1 Deddf Cydraddoldeb 2010

1.1. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod pobl a chanddynt nodweddion penodol o fewn grwpiau penodol fel a ganlyn:

- Oed (yng nghyd-destun y gweithle yn unig)
- Anabledd (neu ar sail rhywbeth sy'n gysylltiedig â'u hanabledd)
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil (ar gyfer materion cyflogaeth)
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol.

Dyletswydd gyffredinol

1.2. Ar 5 Ebrill 2011 daeth y ddyletswydd gyffredinol i rym, a'i nod yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn ystyried sut y gallant wneud cyfraniad positif at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

1.3. O dan y ddyletswydd gyffredinol mae'n ofynnol i sefydliadau cyhoeddus roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erlyniaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf;

- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn eu rhannu;
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn eu rhannu.

1.4. O dan y Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi pennu Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i'r Sector Cyhoeddus¹. Dyma'r dyletswyddau penodol hynny:

- datblygu amcanion cydraddoldeb penodol (gan gynnwys ystyried amcanion i ymdrin â ffactorau sy'n achosi gwahaniaethau cyflog mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig) er mwyn helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, a nodi'r camau bydd y Comisiynydd yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny;
- cynnwys pobl sy'n cynrychioli unigolion â nodweddion gwarchoddedig wrth bennu amcanion cydraddoldeb ac yn ehangach yn y dyletswyddau;
- gwneud trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gyffredinol, ac ystyried gwybodaeth berthnasol o'r fath wrth bennu amcanion cydraddoldeb;
- monitro cynnydd wrth gyflawni'r amcanion cydraddoldeb;
- gwneud trefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gyffredinol a'r rheoliadau ymhlith swyddogion y Comisiynydd;
- cyhoeddi adroddiadau asesu yn nodi, lle y bo'n sylweddol, effaith debygol polisiâu ac arferion newydd;

¹Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (OS2011/1064)



1 Deddf Cydraddoldeb 2010

- cyhoeddi cynllun gweithredu yn nodi unrhyw bolisi i ymdrin â gwahaniaethau o ran cyflogau dynion a merched;
 - cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi, ymhlith pethau eraill, amcanion cydraddoldeb y Comisiynydd, camau i gyflawni'r amcanion ac amserlen ar gyfer eu cyflawni, a'r trefniadau ar gyfer cyflawni rhai dyletswyddau eraill penodol;
 - cyhoeddi gwybodaeth gyflogaeth berthnasol bob blwyddyn – e.e. ystadegau recriwtio a hyfforddi fesul nodwedd warchoddedig;
 - ar gyfer pob blwyddyn a ddaw i ben, cyhoeddi adroddiadau cynnydd yn cyfeirio, ymhlith pethau eraill, at gynnydd tuag at gyflawni amcanion cydraddoldeb penodol y Comisiynydd;
 - rhoi ystyriaeth i'r Ddyletswydd Gyffredinol o fewn prosesau caffael.
- 1.5. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn bodloni'r gofynion hyn a bydd y Comisiynydd yn parhau i roi sylw dyledus iddynt wrth weithredu'r Cynllun a gwaith dydd i ddydd.
- 1.6. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi cyfeiriad y Comisiynydd o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y dair blynedd nesaf. Mae hefyd yn datgan sut bwriedir bodloni dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus.



2 Nod a Swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg

2.1. Caiff nod a swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg eu diffinio ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny mae'n rhaid i'r Comisiynydd weithio tuag at gynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac i ddyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi'u gosod drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny.

2.2. Mae dwy egwyddor ehangach yn sail i waith y Comisiynydd. Yn gyntaf yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac yn ail yr egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gwneir hyn yn bennaf drwy osod a gorfodi safonau a bennir mewn rheoliadau ar sefydliadau cyhoeddus.

2.3. Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol o fewn terfynau deddfwriaeth i gyflawni ei nod. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi nifer o swyddogaethau a phwerau i'r Comisiynydd. Rhaid i'r Comisiynydd er enghraifft gyhoeddi adroddiadau 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg a gall gynnal ymholiadau i unrhyw fater yn ymwneud â'i swyddogaethau. Gall gychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol ac y mae gan y Comisiynydd bwerau lled

farnwrol drwy'r gofyniad i ddyfarnu ar achosion o fewn ei swyddogaethau. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau ehangach hefyd, gan gynnwys:

- Hybu darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cadw digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth
- Llundio a chyhoeddi adroddiadau
- Gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud
- Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru
- Rhoi cyngor i unrhyw berson.



3 Gweledigaeth a Gwerthoedd

3.1. Yn ychwanegol i'r nod a'r swyddogaethau statudol, gweledigaeth ehangach y Comisiynydd yw:

Cymru lle bydd y Gymraeg yn ganolog i fywyd bob dydd a lle gellir ei defnyddio'n gynyddol

3.2. Mae'r Comisiynydd yn gwneud hyn drwy gyfrwng ei Chynllun Strategol.

3.3. Wrth weithredu i wireddu ei gweledigaeth tymor hir, mae'r Comisiynydd wedi adnabod 5 amcan strategol ar gyfer 2015-18:

1. Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi
2. Sicrhau cyfiawnder i ddefnyddwyr y Gymraeg
3. Gosod dyletswyddau statudol a'u rheoleiddio
4. Annog, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar sail wirfoddol
5. Gweithredu a chyfathrebu'n briodol ac effeithiol

3.4. Bydd y Comisiynydd a'i swyddogion yn gweithredu ar sail gwerthoedd craidd. Rhaid sicrhau bod y Comisiynydd yn gweithredu'n annibynnol drwy wneud penderfyniadau a'u gweithredu ar sail tystiolaeth. Wrth ffurfio barn bydd y Comisiynydd yn gadarn gan roi sicrwydd i'r defnyddiwr. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio pob cyfle i fod yn rhagweithiol ac i dorri tir newydd er mwyn ysgogi newid a gwella parhaus. Er mwyn cyfrannu at gynyddu defnydd o'r Gymraeg, bydd y Comisiynydd yn llais dros ddefnyddwyr y Gymraeg. I feithrin amgylchedd gweithio atyniadol ac iach sy'n cefnogi ei

gweithwyr ac yn ceisio eu barn, ac er mwyn bod yn sefydliad sy'n dysgu o brofiad, bydd y Comisiynydd yn agored ac yn deg.

Sut datblygwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn

3.5. Mae'r Comisiynydd wedi ymgysylltu ac ymgynghori â swyddogion, gyda'r cyhoedd yn ogystal ag unigolion yn cynrychioli pobl efo nodweddion gwarchoddedig, fel sail i'r adolygiad o'r amcanion. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn amlinellu sut bydd y Comisiynydd yn parhau i sicrhau ei bod, fel cyflogwr, yn rhoi'r egwyddorion hynny sy'n sail i gydraddoldeb a thegwch ar waith. Mae'r Cynllun hefyd yn amlinellu sut bydd y Comisiynydd, wrth weithredu ei phwerau, yn gweithredu mewn modd cynhwysol.

Monitro cynnydd a chyflawniad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

3.6. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ar waith o'r dyddiad cyhoeddi hyd nes diwedd Mawrth 2020. Ym mhob blwyddyn ariannol newydd, bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi Diweddariad Cydraddoldeb Blynyddol a fydd yn nodi cynnydd wrth gyflawni yr amcanion cydraddoldeb a nodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yma a chaiff ei gyhoeddi fel rhan o adroddiad blynyddol corfforaethol y Comisiynydd.

3.7. Ceir manylion pellach ynghylch monitro cyflawniad fesul amcan o fewn y Cynllun hwn.



4 Amcanion Cydraddoldeb Strategol Comisiynydd y Gymraeg

Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

- 4.1. Mae amcanion cydraddoldeb Comisiynydd y Gymraeg yn ei galluogi i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol.
- 4.2. Wrth gyflawni ei swyddogaethau bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:
 - ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erlyniaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf;
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn eu rhannu;
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn eu rhannu.
- 4.3. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys pedair amcan cydraddoldeb. Pe codir amheuan bod camwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol wedi neu yn digwydd, bydd y Comisiynydd yn ymchwilio i'r amheuan hynny er mwyn sefydlu ffeithiau'r achos. Gwneir hyn yn unol â'r polisiau perthnasol, e.e. y Polisi Disgyblu.



4 Amcanion Cydraddoldeb Strategol Comisiynydd y Gymraeg

Amcan 1

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofalu ei bod yn ystyried cydraddoldeb ym mhob proses gorfforaethol a phroses gynllunio gan gynnwys datblygiad unrhyw weithdrefn neu bolisi, cyhoeddiad neu ddogfen ac ym mhob agwedd o'i rhaglen waith.

- 4.4. Mae'r amcan hwn o arwyddocâd sylweddol i waith Comisiynydd y Gymraeg o safbwynt dwysau dealltwriaeth ac ystyriaeth a roddir eisoes i faterion cydraddoldeb a hawliau dynol.
- 4.5. Mae'n amcan strategol y gobeithir y bydd yn cael traweffaith sylweddol ar ddealltwriaeth staff o'r effaith y caiff gwaith Comisiynydd y Gymraeg ar eraill.
- Camau i'w cymryd ac amserlen**
- 4.6. Law yn llaw efo datblygu'r Cynllun hwn, bydd y Comisiynydd yn sefydlu trefn o Asesu Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â phenderfyniadau a pholisiâu'r Comisiynydd gan gynnwys unrhyw weithdrefn neu bolisi, cyhoeddiad neu ddogfen, ar raddfa fach neu fawr, y rhaglen waith wreiddiol ac addasiadau iddo ac wrth arfer ei swyddogaethau.
- 4.7. Yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer gweithredu'r Cynllun, bydd y Comisiynydd yn cynnal hyfforddiant asesu effaith, a sicrhau bod holl swyddogion yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus.
- 4.8. Bydd cydymffurfiaeth y Comisiynydd gyda'r phob deddfwriaeth mae'n ddarostyngedig iddo yn ystyriaeth wrth adolygu'r gofrestr risg a gaiff ei graffu arno gan Bwyllgor Archwilio a Risg Comisiynydd y Gymraeg. Bydd y risgiau gweithredol yn cyfeirio at y deddfau unigol gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010.
- 4.9. Bydd y Tîm Rheoli'n craffu'r asesiadau ac yn eu gwrthod neu dderbyn a phennu camau gweithredu yn ôl yr angen. Rhaid i'r asesiadau fod yn drwyadl os am gael ystyriaeth gan y Tîm Rheoli.
- 4.10. Pan fo asesiad yn amlygu effaith sylweddol, caiff adroddiad ei lunio a'i gyhoeddi.
- 4.11. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'r amcan hwn gael ei weithredu ar sail barhaus dros gyfnod y Cynllun.
- Sut bydd y Comisiynydd yn monitro cyflawniad?**
- 4.12. Mae Tîm Rheoli Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn adroddiadau, papurau a pholisiâu yn fisol naill ai er gwybodaeth neu er penderfyniad, fydd yn cynnwys yr asesiad.
- 4.13. Ymhellach bydd yr Asesiad yn ffurfio rhan o gynllunio rhaglenni gwaith ar gyfer cynllun gweithredol y Comisiynydd, sef y rhaglen a ddefnyddir i fonitro cynnydd swyddogion fesul targed a gytunir. Caiff y gwaith hwn ei gydlynu gan yr Uwch Swyddog Llywodraethiant fydd yn hwyluso defnydd priodol o'r Asesiad.



4 Amcanion Cydraddoldeb Strategol Comisiynydd y Gymraeg

Amcan 2

Bydd y Comisiynydd yn parhau i wella dulliau o ddarparu gwasanaethau gan sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn ganolog i sut caiff gwasanaethau eu cyflunio i ddefnyddwyr a'u rhoi ar waith.

4.14. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod fod gan pobl anghenion gwahanol i'w gilydd ac ei fod yn bwysig dysgu drwy ymgysylltu a gwranddo.

Camau i'w cymryd ac amserlen

4.15. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn trafod yn flynyddol gyda chynrychiolwyr o grwpiau pobl â nodweddion gwarchoddedig a chynnal deialog barhaus agored. Bydd y Comisiynydd hefyd yn cymryd rhan mewn grŵp rhwydweithio ag agenda cydraddoldeb a hawliau dynol ar y cyd efo cynrychiolwyr comisiynwyr ac ombwdsryn eraill yn ogystal ag ystyried arfer da fel yr hyn a gyhoeddir gan Gymdeithas yr Ombwdsryn.

4.16. Bydd y Comisiynydd yn parhau i wneud addasiadau, pan fo hynny'n bosibl, ar gyfer pobl o fewn grwpiau â nodweddion gwarchoddedig gyda golwg ar sicrhau nad ydynt o dan unrhyw anfantais o'i gymharu ag unrhyw berson arall yn ystod y broses o ystyried eu cwyn neu unrhyw ymwneud arall gyda'r Comisiynydd. Fel enghraifft o'r hyn sydd eisoes ar waith, mae'r Polisi Gorfodi yn nodi

'Bydd y Comisiynydd yn derbyn cwynion ysgrifenedig drwy'r post, e-bost, drwy'r wefan a thrwy rwydweithiau cymdeithasol. Er mwyn sicrhau hygyrchedd, bydd modd

i'r sawl na all gyflwyno cwyn yn ysgrifenedig oherwydd eu hamgylchiadau personol, gysylltu a'r Comisiynydd dros y ffon, neu unrhyw gyfrwng addas arall i egluro hynny ac i drafod eu cwyn. Bydd y Comisiynydd yn gwneud darpariaeth resymol gan ddarparu cymorth iddynt gyflwyno cwyn drwy ddull arall.'

4.17. Lle bo ymwneud y Comisiynydd â'r cyhoedd yn sylweddol, megis cwynion, bydd y Comisiynydd yn cynyddu'r wybodaeth am y bobl sy'n ymwneud â'r sefydliad, drwy brosesau casglu data, monitro a dadansoddi mwy manwl, a defnyddio'r wybodaeth i ganfod unrhyw feysydd lle y gellir gwella.

4.18. Bydd y Comisiynydd yn cynnal adolygiad yn proffilio achwynwyr. Fel rhan o hynny, rhoddir ystyriaeth i'r graddau mae'r Comisiynydd yn hygyrch i achwynwyr a chanddynt nodweddion gwarchoddedig. Bydd angen sefydlu pa welliannau y gellir eu gwneud i fod yn fwy cynhwysol pe bydd angen.

4.19. Bydd y Comisiynydd yn cadw cofnod o faterion cydraddoldeb drwy fonitro cwynion (boed am sefydliad sydd dan ddyletswydd i gydymffurfio efo cynllun iaith neu safonau neu beidio) a chwynion yn erbyn y Comisiynydd.

4.20. Bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod ei swyddogion yn parchu egwyddorion cydraddoldeb ac eu bod yn ystyriaeth wrth iddynt berfformio eu rolau.

4.21. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'r amcan hwn ar sail barhaus dros gyfnod y Cynllun.



4 Amcanion Cydraddoldeb Strategol Comisiynydd y Gymraeg

- 4.22. **Sut bydd y Comisiynydd yn monitro cyflawniad?**
Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn nodi, o fewn yr adroddiad blynyddol, pa gyswllt a gafwyd gyda grwpiau yn cynrychioli pobl ag iddynt nodweddion gwarchoddedig a pha newid a fu o ganlyniad.



4 Amcanion Cydraddoldeb Strategol Comisiynydd y Gymraeg

Amcan 3

Wrth ddatblygu ei strategaeth cyfathrebu bydd yn sicrhau bod amrywiaeth a chydraddoldeb yn ystyriaeth wrth gyfathrebu'n allanol.

Camau i'w cymryd ac amserlen

- 4.23. Bydd y Comisiynydd yn adolygu ei strategaeth cyfathrebu allanol yn ystod oes y Cynllun hwn gan roi ystyriaeth arbennig i bobl ac iddynt nodweddion gwarchoddedig. Rhoddir sylw arbennig i gynnwys, ansawdd a chyfrwng y cyfathrebu er mwyn i negeseuon allweddol allu cyrraedd pawb yn y gymdeithas.
- 4.24. Bydd y Comisiynydd yn adolygu ei chyhoeddiadau er mwyn sicrhau bod modd i bawb gael mynediad at wybodaeth am y Comisiynydd. Wrth wneud hyn bydd fformatau'r dogfennau yn cael eu hystyried gan edrych ar ddefnyddio fformatau amgen.
- 4.25. Bydd y Comisiynydd yn sicrhau trafodaeth effeithiol â rhanddeiliaid drwy gyfathrebu wedi ei dargedu.
- 4.26. Bydd y Comisiynydd yn edrych yn barhaus ar ddulliau gwahanol o gyfathrebu er mwyn ei gwneud mor rhwydd â phosibl i'r cyhoedd gysylltu, gan ystyried datblygiadau technolegol newydd.
- 4.27. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'r amcan hwn gael ei gyflawni erbyn diwedd Ebrill, ac yna adolygu'n flynyddol fel sy'n berthnasol.

4.28. Sut bydd y Comisiynydd yn monitro cyflawniad?

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn nodi, o fewn yr adroddiad blynyddol, cyrhaeddiad yn erbyn amcanion strategaeth gyfathrebu'r sefydliad yng nghyd destun cydraddoldeb a hawliau dynol. Hefyd, caiff ceisiadau am fformatau amgen o gyhoeddiadau eu cofnodi er mwyn ymateb yn rhagweithiol i unrhyw dueddiadau.



4 Amcanion Cydraddoldeb Strategol Comisiynydd y Gymraeg

Amcan 4

Datblygu a chryfhau perthynas waith briodol efo'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol lle mae materion yn codi o ddiddordeb i'r ddau sefydliad a bod o fudd i'r dinesydd bod y sefydliadau'n cydweithio.

Camau i'w cymryd ac amserlen

- 4.29. Bydd adran 21 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn arweiniad i Gomisiynydd y Gymraeg wrth bennu hyd a lled y berthynas. Noda'r Mesur y caiff y Comisiynydd hysbysu Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â mater cysylltiedig, os yw o'r farn bod hynny'n briodol a gallent gydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau neu eu cynnal, paratoi a chyhoeddi ar y cyd.
- 4.30. Bydd angen datblygu ar y berthynas â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar lefel weithredol rhwng swyddogion i allu trafod materion perthnasol i'r ddau sefydliad.
- 4.31. Pan fo ymchwiliadau i gwynion yn amlygu un neu fwy o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol o fewn y naw nodwedd warchoddedig, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn hysbysu eu cyswllt o fewn Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Sut bydd y Comisiynydd yn monitro cyflawniad?

- 4.32. Bydd y Comisiynydd yn adolygu'r cyswllt a fu yn ystod y flwyddyn ac asesu effeithiolrwydd y berthynas ar sail y canlyniadau a gafwyd i'r ddau sefydliad a'r cyhoedd.



5 Cydraddoldeb wrth ein gwaith

- 5.1. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gwrthwynebu'n llwyr unrhyw gamwahaniaethu ar ba bynnag sail; ceir isod manylion ynghylch y trefniadau hyn sydd eisoes ar waith i gyflawni'r nod o ddileu camwahaniaethu anghyfreithlon. Nid yw mwyafrif yr ymrwymadau isod yn rhai newydd; mae'r Comisiynydd yn dymuno eu cynnwys o fewn y cynllun hwn er mwyn eu cadarnhau.
- 5.2. Er mwyn parhau i weithio tuag at weithlu sydd yn adlewyrchu amrywiaeth, bydd y Comisiynydd yn monitro ei weithlu yn ôl nodweddion a warchodir, gyda'r nod o nodi a gweithredu camau cadarnhaol priodol i recriwtio, cadw a rhoi cyfle i bob unigolyn.
- 5.3. Bydd y Comisiynydd yn annog ei swyddogion i nodi gwybodaeth cydraddoldeb ar ei system adnoddau dynol gan fynegi manteision gwneud hynny a chadarnhau trefniadau diogelu data.
- 5.4. Bydd y Comisiynydd yn adolygu ei gwaith monitro recriwtio i gynnwys yr holl nodweddion a warchodir. Bydd y Comisiynydd yn parhau i ofyn i bawb sy'n gwneud cais am swydd i gwblhau ffurflen monitro cyfle cyfartal gyda dosbarthiadau a termau safonol ar gyngor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- 5.5. Bydd y Comisiynydd yn adolygu polisïau adnoddau dynol perthnasol er mwyn sicrhau y caiff unrhyw effeithiau gwahaniaethol diangen eu dileu cymaint â phosibl o fewn cyfyngiadau anghenion busnes.
- 5.6. Bydd y Comisiynydd yn gofyn cwestiynau am gydraddoldeb yn ei arolwg gweithlu, gan gynnwys yr holl nodweddion a warchodir a pharhau i holi ynghylch bwlio ac aflonyddu.
- 5.7. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio canlyniadau'r arolwg staff i ddeall a gwella profiadau'r gweithlu yng nghyd destun cydraddoldeb a hawliau dynol. Bydd y cynllun gweithredu sy'n deillio o'r arolwg yn ystyriol o faterion cydraddoldeb a hawliau dynol.
- 5.8. Bydd y Comisiynydd yn parhau i ddiwallu ei hymrwymiad i gydraddoldeb a hawliau dynol i'w gweithlu gyda'i phegyn o bolisiau adnoddau dynol (yn berthnasol i ryw, beichiogrwydd a mamolaeth, statws priodasol ac anabledd).
- 5.9. Bydd y Comisiynydd yn cynnal archwiliad mynediad o'i swyddfeydd i amlgu nodweddion a rhwystron i fynediad a blaenoriaethu camau gweithredu.
- 5.10. Mae'r Comisiynydd yn defnyddio cynllun arfarnu swyddi systematig sy'n ymgorffori cyflogau cyfartal². Mae'r Comisiynydd yn ymgynghori â'r undeb ar faterion cyflogau ac amodau gwasanaeth a fydd hefyd yn cynnwys materion cyflogau cyfartal (anhydraddoldeb cyflog uniongyrchol neu anuniongyrchol) o fewn rhaglen archwiliadau mewnol y Comisiynydd.
- 5.11. Bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod cyflenwyr yn llwyr ymwybodol o gyfrifoldeb cydraddoldeb y Comisiynydd drwy ei gynnwys mewn manylebau tendrau a profi eu

²Noder, os gwelwch yn dda, nad yw Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnwys amcan i'r perwyl hwn a hynny oherwydd bod gweithdrefnau i ymdrin â gwahaniaeth tâl rhwng dynion a merched eisoes wedi'i ymgorffori o fewn dyletswyddau'r tîm adnoddau dynol.



5 Cydraddoldeb wrth ein gwaith

dealltwriaeth yn y broses ddethol (ble'n berthnasol i'r gwaith). Bydd caffael gerfydd Gwerthwch i Gymru'n sicrhau bod y Comisiynydd yn manteisio ar brotocolau sector cyhoeddus cytûn wrth gymhwyso cydraddoldeb i'r broses gontractio.

- 5.12. Bydd trefniadau adolygu ansawdd blynyddol yn archwilio samplau o waith / prosiectau a gwblhawyd gan drydydd parti ar ran y Comisiynydd er mwyn cadarnhau a yw'r cyflenwr wedi gwneud trefniadau i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. Caiff cyflenwyr eu hysbysu o ganlyniadau'r adolygiadau ansawdd, ac mewn achosion arwyddocaol, cymerir camau adfer yn unol â'r cytundeb. Caiff canlyniadau eu hystyried wrth gyflwyno adroddiadau blynyddol ar gynnydd hefyd.



Atodiad 1

Cynllun gweithredu i ategu'r gofynion

Amcan	Cam gweithredu	Dyddiad targed	Swyddog Cyrifol
1	Cynnal hyfforddiant arbenigol ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a sut i gynnal ymarferiad sgrinio ac asesiad effaith cydraddoldeb effeithiol a darparu canllawiau desg i bob swyddog.	14 Chwefror 2017 ac yna fel bo'r angen	Uwch Swyddog Adnoddau Dynol ac Uwch Swyddog Llywodraethiant
1	Ychwanegu 'craffu asesiadau effaith cydraddoldeb' fel elfen safonol o flaenddalen papurau er penderfyniad i gyfarfodydd y Tîm Rheoli.	30 Chwefror 2017	Comisiynydd y Gymraeg
1	Tîm Rheoli i wrthod, derbyn neu rhoi adborth ar asesiadau a gynhaliwyd.	Misol	Tîm Rheoli
1	Cynnal arolwg o ddefnydd yr asesiadau a'r broses sgrinio 6 mis yn ddiweddarach i'r hyfforddiant	Gorffennaf 2017 ac yna'n flynyddol	Uwch Swyddog Llywodraethiant
1	Cynnal asesiad effaith cydraddoldeb i bolisiau a gweithdrefnau pan yn cael eu diweddarau.	Ar sail barhaus oddi ar 14 Chwefror 2017	Awdur y ddogfen diwygiedig
1	Cynnal asesiad effaith cydraddoldeb i raglenni gwaith drafft y Cynllun Gweithredol blynyddol.	Blynyddol	Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion
1	Cynnal asesiad effaith cydraddoldeb i gyhoeddiadau a dogfennau nad ydynt angen cymeradwyaeth y Tîm Rheoli.	Ar sail barhaus oddi ar 14 Chwefror 2017	Awdur y cyhoeddiad
2	Cymryd rhan mewn grŵp rhwydweithio gydag agenda cydraddoldeb a hawliau dynol gyda rheoleiddwyr eraill.	Chwarterol	Uwch Swyddog Llywodraethiant



Atodiad 1

Amcan	Cam gweithredu	Dyddiad targed	Swyddog Cyfrifol
2	Cynnal digwyddiad ymgysylltu pwrpasol gyda gwahoddiad i gynrychiolwyr grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig a/neu fynychu digwyddiadau grwpiau eraill.	Ionawr 2018 ac yna'n flynyddol	Uwch Swyddog Llywodraethiant
2	Wrth drefnu digwyddiadau bydd swyddogion yn cyfeirio at ganllaw pwrpasol er mwyn sicrhau fod anghenion mynediad pawb wedi'u diwallu.	Yn barhaus oddi ar Ebrill 2017	Uwch Swyddog Llywodraethiant i gylchredeg, pob trefnydd digwyddiadau i'w ddefnyddio.
2	Cynnal adolygiad yn proffilio achwynwyr. Fel rhan o hynny, bydd rhoddir ystyriaeth i'r graddau mae'r Comisiynydd yn hygrch i achwynwyr a chanddynt nodweddion gwarchoddedig. Bydd angen sefydlu pa welliannau y gellir eu gwneud i fod yn fwy cynhwysol pe bydd angen.	Hydref 2017	Uwch Swyddog Ymchwilio a Gorfodi
3	Ystyriaeth o faterion cydraddoldeb wrth ddatblygu Strategaeth Gyfathrebu Allanol Comisiynydd y Gymraeg.	Ebrill 2017	Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil
3	Cynnal arolwg o gyhoeddiadau a fformatau i sefydlu a ydynt yn diwallu anghenion defnyddwyr.	Hydref 2017	Swyddog Cyhoeddiadau
4	Sgrinio cwynion a dderbynnir er mwyn adnabod materion cydraddoldeb a hawliau dynol all fod yn berthnasol iddynt ac ystyried a yw'n briodol cysylltu efo'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch y mater.	Ar sail barhaus oddi ar 14 Chwefror 2017	Uwch Swyddog Ymchwilio a Gorfodi a Chyfarwyddwr Cydymffurfiaeth a Gorfodi
4	Swyddogion perthnasol i ymgyfarwyddo gyda pholisi ymgyfreitha Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.	Erbyn 31 Fawrth 2017	Cyfarwyddwr Cydymffurfiaeth a Gorfodi